**Grŵp Trawsbleidiol ar Angladdau a Phrofedigaeth**
9 Mai 2018
Ystafell Gynadledda 4

**Cofnodion**

**Yn bresennol:**

Mark Isherwood AC (Cadeirydd)
Russell George AC
James Tovey (Siarter SAIF)
Graeme McAusland (FPA)
Philip Blatchly (NAFD)
Kate Edwards (NAFD)
Kim Bird (About the Funeral)
Gordon Swan - (Golden Charter)
Wendy Hobbs (Dreams & Wishes)
Tony Curtis (Dreams & Wishes)
David Beamer (Ysgrifennydd)

**Eitem 1: Ymddiheuriadau**

Darren Millar AC
Janet Finch-Saunders AC
Nigel Lymn Rose (NAFD)
Martin Birch (Cyngor Sir Caerdydd)
Gemma O'Driscoll (Cyn-Lywydd, SAIF)
Simon Thomas AC
Paul Davies AC
Neil Hamilton AC
Janette Bourne (Cruse)
Jeremy Field (NAFD)
Carys Moseley (EBCPCW)
Paul Harding (Marie Curie)
Jean Letton (BASW)
Lorraine Barrett (Gweinydd gyda'r Dyneiddwyr)

**Eitem 2: Cymeradwyo cofnodion**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf.

**Eitem 3: Diweddariad**

Roedd yr holl eitemau i'w cynnwys yn y brif agenda.

**Eitem 4: Cyflwyniad: Graeme McAusland, Prif Weithredwr, yr Awdurdod Cynllunio Angladdau**

Gwnaeth Graeme McAusland, Prif Weithredwr yr Awdurdod Cynllunio Angladdau gyflwyniad ar waith yr awdurdod a oedd yn cynnwys manylion am sut y caiff y sector angladdau rhagdaledig ei reoleiddio.

**Eitem 5: Adolygiad o ohebiaeth**

Adolygodd aelodau'r Grŵp ohebiaeth gan:

a) Yr Arglwydd O'Shaughnessy - nodwyd ei ymateb. Penderfynodd y Grŵp aros am ymateb Llywodraeth y DU i'r ymgynghoriad ar ardystiad marwolaeth gael ei gyhoeddi, a ddylai ddod â mwy o eglurder ar gynigion ar gyfer Cymru a Lloegr.
b) Y Prif Grwner - cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ymateb i lythyr y Prif Grwner i gael rhagor o wybodaeth am gontractau gwaredu crwneriaid. Gofynnwyd i'r Ysgrifennydd ddrafftio llythyr.
c) Cyllid Cyfrifol - cytunwyd y byddai'r Ysgrifennydd yn ceisio cael cynrychiolydd o'r sefydliad i fynychu cyfarfod nesaf y Grŵp.

**Eitem 6: Diwygio tystysgrifau marwolaeth**

Trafododd y Grŵp ddiwygiadau ardystio marwolaeth sydd wedi'u cynllunio ar gyfer Cymru a Lloegr, a'r ymateb gan yr Arglwydd O'Shaughnessy. Fel yr amlinellir yn Eitem 5, cytunwyd y byddai'r Grŵp yn aros am ymateb Llywodraeth y DU i'r ymgynghoriad ar ardystiad marwolaeth gael ei gyhoeddi, ac fe'i ddisgwylir dros yr wythnosau nesaf.

**Eitem 7: Rheoliadau amlosgi**

Gofynnodd Janette Bourne i'r eitem hon gael ei rhoi ar yr agenda.

Cynhaliwyd trafodaeth ar y ffurflenni cais am amlosgiad newydd a chanllawiau wedi'u diweddaru a gyhoeddwyd ar 6 Ebrill 2018 ynghyd â fersiynau wedi'u diweddaru o'r ffurflenni amlosgi eraill y gellir eu llenwi'n electronig nawr. Gofynnodd y Cadeirydd i'r rhai a oedd yn bresennol roi gwybod iddo am unrhyw faterion a wynebir gan deuluoedd sydd wedi profi profedigaeth neu'r sector angladdau o ganlyniad i'r ffurflenni newydd a'r canllawiau diweddaraf.

**Eitem 8: Cymorth y Gronfa Gymdeithasol**

Nododd y Grŵp benderfyniad Senedd yr Alban ar 25 Ebrill 2018 i ddiwygio Bil Nawdd Cymdeithasol (Yr Alban) fel y byddai'r elfen sydd wedi'i gyfyngu i £700 yn yr Alban yn cynyddu'n flynyddol yn unol â chwyddiant.

**Eitem 9: Ffyrdd o gofio**

Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â'r defnydd a wneir yn gyson o falwnau, llusernau awyr a thân gwyllt i gofio rhywun neu i nodi marwolaeth. Nododd y Grŵp sefyllfa Cadwch Gymru'n Daclus a oedd wedi mynegi eu pryderon i'r Cadeirydd.

Trafododd y trefnwyr angladdau a oedd yn bresennol y weithred o ryddhau colomennod a glöynnod byw fel ffyrdd o gofio pobl hefyd. Gofynnodd y Cadeirydd i'r trefnwyr angladdau a oedd yn bresennol a fyddai modd iddynt roi gwybod am ddewisiadau eraill yn eu cylchgronau / llenyddiaeth. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Ysgrifennydd ddrafftio llythyr i'w anfon at KWT i roi gwybod i'r sefydliad bod y mater wedi'i drafod mewn cyfarfod Trawsbleidiol ac i roi amlinelliad o farn aelodau'r Grŵp ar ddewisiadau amgen iddynt.

**Eitem 10: Unrhyw fater arall**

Cododd Kim Bird God Ymarfer NAFD. Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at y NAFD i ofyn am gynrychiolydd a allai ateb cwestiynau Ms Bird i fynychu cyfarfod nesaf y Grŵp .

Argymhellodd Russell George AC y dylai aelodau nad ydynt yn Aelodau Cynulliad ac sy'n mynychu'r cyfarfodydd gysylltu â'u AC lleol i'w hannog i fynychu cyfarfodydd y Grŵp.

**Eitem 11: Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Cadarnhawyd y cynhelir y cyfarfod nesaf am 18:00 ar 24 Hydref. Penderfynwyd peidio â chynnal y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 6 Mehefin gan ei fod mor fuan wedi'r cyfarfod hwn.